| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Cynllunio |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 18 Gorffennaf 2018 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cyng. Brian Jones, Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy<br>Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| Awdur yr Adroddiad: | Chris Evans, Pen Swyddog Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| Teitl: | Arfarniad Ardal Gadwraeth y Rhyl |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno Arfarniad Ardal Gadwraeth y Rhyl. Pwrpas yr Arfarniad Ardal Gadwraeth yw diffinio a chofnodi'r diddordeb hanesyddol arbennig yn yr Ardal Gadwraeth. Daw gyda'r brif ddogfen ddrafft yn Atodiad I.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I geisio cymeradwyaeth Aelodau i gynnal ymgynghoriad ar Arfarniad drafft Ardal Gadwraeth y Rhyl (Prif Ddogfen), gyda chyrff statudol ac aelodau o'r cyhoedd. Os caiff ei gymeradwyo, mae Arfarniad Ardal Gadwraeth y Rhyl yn arwain at fân newidiadau i faint Ardal Gadwraeth y Rhyl a bydd yn cynorthwyo yn y rheolaeth effeithiol o'r Ardal Gadwraeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 I Aelodau gytuno i swyddogion fynd allan ar ymgynghoriad cyhoeddus ar Arfarniad drafft Ardal Gadwraeth y Rhyl.

4. **Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae Ardal Gadwraeth yn ardaloedd o ‘ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae’n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu hymddangosiad.’ Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i adolygu maint ardaloedd cadwraeth ac i gyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth. Mae Arfarniad Ardal Gadwraeth Canol y Rhyl yn cyflawni’r ddyletswydd hon mewn perthynas â’r Rhyl.

4.2 Yn wreiddiol, roedd dwy Ardal Gadwraeth ar wahân wedi’u dynodi yng nghanol y Rhyl, gydag Ardal Gadwraeth Sant Tomos yn cael ei dynodi ym 1988 ac Ardal Gadwraeth Queen Street/Ffordd Cilgant yn cael ei dynodi ym 1992. Yn 2007, penderfynwyd adolygu'r ddwy Ardal Gadwraeth yng nghanol y Rhyl a'u cyfuno yn un Ardal gadwraeth fwy. Mae’r Ardal Gadwraeth gyfredol yn cwmpasu ardal eang o Ganol Tref y Rhyl o Abbey Road i’r dwyrain i Stryd y Baddon yn y gorllewin, ac o Rodfa’r Gorllewin i’r gogledd, a’r orsaf drenau i’r de.

4.3 Penderfynodd yr Amgylchedd Adeiledig yn 2017 y byddai Ardal Gadwraeth y Rhyl yn elwa o adolygiad, oherwydd teimlwyd bod rhai ardaloedd wedi colli eu cymeriad ac roedd yn ardal fawr i’w rheoli. Penodwyd Penseiri Purcell, sy’n Ymgynghorwyr profiadol mewn Cadwraeth, i gynnal yr adolygiad.

4.4 Canfyddiadau allweddol yr arfarniad yw bod angen newidiadau i ffiniau’r Ardal Gadwraeth. Argymhellir bod ardaloedd o amgylch Stryd Edward Henry, Bedford Street a Queen Street yn cael eu symud ymaith oherwydd erydiad cymeriad, ac awgrymir y dylid cynnwys Parc Morlan, Stryd y Baddon a'r Stryd Fawr, gan eu bod yn cadw cymeriad, y dylid ei amddiffyn.

4.5 Awgrymir Rhestr Leol fel ffordd gadarnhaol ymlaen i ddathlu’r asedau hanesyddol sydd heb eu rhestru yn y dref, gan ychwanegu haen o amddiffyniad yn erbyn addasiadau anaddas drwy sicrhau bod 'diddordeb arbennig' adeilad yn ystyriaeth yn y broses gynllunio. Byddai Cadwraeth CSDd yn gyfrifol i ffurfio'r rhestr hon, ond ar hyn o bryd, dim ond un Swyddog Cadwraeth a gyflogir ar sail rhan amser am hanner wythnos, gan adael adnoddau annigonol

i gynnal tasg o'r fath. Dewis arall fyddai cyflogi ymgynghorydd pe bai arian ar gael. Y canlyniadau o beidio â darparu rhestr leol yw y gall addasiadau anaddas ddigwydd ar ased hanesyddol heb ei restru yn y dref.

4.6 Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn isafswm o 8 wythnos a rhagwelir y bydd yn dechrau 3 Medi 2018. Ymgynghorir â Chyngor Tref y Rhyl, ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol a phreswylwyr a pherchnogion tir yr effeithir arnynt gan y cynigion. Bydd copïau caled o'r dogfennau hyn ar gael yn llyfrgell y Rhyl a siop un stop yn ogystal ag ar wefan Sir Ddinbych. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael mewn 'siop pop-yp' yng Nghanolfan Siopa'r Rhosyn Gwyn, a ddefnyddir ar gyfer ymgynghori ar Brif Gynllun y Rhyl. Bydd Porth Ymgynghori newydd y Cyngor hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a dylai fod ar gael Awst 2018. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda chais tebygol i fabwysiadu'r ddogfen gyda newidiadau arfaethedig o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol 2017-22. Bydd Arfarniad Ardal Gadwraeth y Rhyl yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:

- Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni ragwelir y bydd cymeradwyo Arfarniad drafft Ardal Gadwraeth y Rhyl ar gyfer ymgynghori gyda chyrff statudol a'r cyhoedd yn creu unrhyw gostau ychwanegol.

6.2 Nid yw cael Arfarniad Ardal Gadwraeth y Rhyl wedi'i fabwysiadu'n debygol o gael effaith ar wasanaethau eraill y Cyngor.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les mewn perthynas â cheisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar y ddogfen. Bydd Asesiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â chymeradwyo’r ddogfen derfynol yn dilyn ymgynghori.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Fe wnaeth adrannau o fewn Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ymgysylltu â'i gilydd. Trafodaethau gyda gwasanaethau eraill CSDd ac o fewn gwaith Uwchgynllun Canol Tref y Rhyl. Diweddarir aelodau lleol ar y cynnydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni ragwelir y bydd cymeradwyo Arfarniad drafft Ardal Gadwraeth y Rhyl ar gyfer ymgynghori’n creu unrhyw gostau ychwanegol, ond os bydd rhai yn codi, yna bydd angen cynnwys y costau hyn o fewn cyllidebau refeniw gwasanaeth presennol.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau wedi’u nodi gydag ymgynghori ar Arfarniad Ardal Gadwraeth y Rhyl.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016